Hawliau plant i apelio a gwneud hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Canllawiau statudol i awdurdodau lleol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 157/2015
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2015

Hawliau plant i apelio a gwneud hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol yn ogystal â chyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar ddyletswyddau a gyflwynwyd o dan Ran 1 o Fesur Addysg (Cymru) 2009 ynghylch hawl plentyn i wneud apêl drosto'i hun mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig neu wneud hawliad mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgol i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Camau i'w cymryd

Rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw i'r canllawiau statudol hyn.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Tîm Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Mesur Addysg (Cymru) 2009
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/5/contents/enacted/welsh

Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/321/introduction/made/welsh

Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/322/contents/made/welsh

Gwerthusiad o Brosiect Peilot ar Hawliau Pobl Ifanc i Apelio a Hawlio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru: Adroddiad terfynol
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-pilot-young-peoples-rights-appeal-claim-sen-tribunal/?skip=1&lang=cy

ISBN digidol 978 1 4734 2685 6
© Hawlfraint y Goron 2015
WG24021

Cynnwys

Cyflwyniad **2**

Mesur Addysg (Cymru) 2009 **4**

Cyfrifoldebau statudol a dulliau arfer da awdurdodau lleol **6**

Atodiad A: Darpariaethau Mesur Addysg (Cymru) – crynodeb **11**

Atodiad B: Deunyddiau peilot a chysylltiadau **13**

Cyflwyniad

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 ("y Mesur") yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl i blant a phobl ifanc yng Nghymru ddwyn achos cyfreithiol gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbenigol Cymru (TAAAC) eu hunain. Golyga hyn y gall plant a phobl ifanc wneud apêl mewn cysylltiad â'u hanghenion addysgol arbennig i TAAAC eu hunain. Gallant hefyd wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgol.

Gosodir nifer o ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth pan fo angen. Tynnwyd sylw at astudiaethau achos yn y canllawiau hyn er mwyn adlewyrchu arfer da[1].

Ymrwymiad i egwyddorion y CCUHP

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel prif sail ei pholisïau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, fel y'i cwmpesir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r CCUHP yn gytundeb rhyngwladol sy'n hyrwyddo hawliau dynol plant o dan 18 oed.

Atgyfnerthodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddull seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru o lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan adeiladu ar y dull hwnnw. Mae'n gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i ystyried yr hawliau a'r rhwymedigaethau a geir yn CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae'r dull hwn a amlinellir yn y canllawiau hyn yn gyson ag egwyddorion sylfaenol CCUHP, sef bod gan blentyn hawl i gael gofal, addysg, ei gynnwys mewn penderfyniadau a wneir a magwraeth sy'n rhydd o drais a thriniaeth ddiraddiol. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar egwyddorion craidd CCUHP sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

> parch tuag at fuddiannau a hawliau plant (Erthyglau 2 a 3)
> hawl i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnynt a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed (Erthygl 12)
> sicrhau y bydd y plentyn yn benodol yn cael y cyfle i gael ei glywed mewn unrhyw gamau barnwrol a gweinyddol sy'n effeithio ar y plentyn naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol cyfraith genedlaethol (Erthygl 12)
> rhyddid mynegiant, sy'n cynnwys yr hawl i geisio, cael a chyflwyno gwybodaeth a syniadau o bob math, ni waeth beth fo'r ffiniau, naill ai ar lafar, yn ysgrifenedig neu mewn print, ar ffurf celf, neu drwy unrhyw gyfrwng arall o ddewis y plentyn (Erthygl 13)

[1] Nod yr astudiaethau achos hyn a amlygwyd yw adlewyrchu'r dulliau a ddefnyddiwyd, fodd bynnag, nid ydynt yn cymhau'r dulliau a ddefnyddiwyd gan yr awdurdodau peilot.

cydnabod hawl plentyn ag anabledd meddyliol neu gorfforol i fwynhau bywyd llawn a digonol, mewn amodau sy'n sicrhau urddas, yn hyrwyddo hunanddibyniaeth ac yn hwyluso cyfranogiad gweithredol y plentyn yn y gymuned (Erthygl 23)
cydnabod hawliau pob plentyn i gael addysg, ar sail cyfle cyfartal, sy'n datblygu personoliaeth, talentau a galluoedd meddyliol a chorfforol plentyn i'w llawn botensial (Erthyglau 28 a 29)

Mae Llywodraeth Cymru yn glir yn ei hymrwymiad parhaus i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cynnwys y sawl sydd fwyaf agored i niwed a'r sawl sydd anoddaf eu cyrraedd.

Statws y canllawiau

Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adrannau 332AA, 332BA a 332BB o Ddeddf Addysg 1996[2] a pharagraffau 6B, 6C, 6D o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010[3] sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried. Golyga hyn bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, bod ganddynt resymau clir a chyfiawn dros wneud hynny.

Y fframwaith statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer AAA. Nodir cynigion manwl mewn perthynas â'r newidiadau hyn yn y Papur Gwyn 'Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol'[4]. Rhoddir rhagor o ystyriaeth i'r canllawiau statudol hyn yn dilyn canlyniad y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio.

[2] Nodwyd gan adran 4 i 6 o'r Mesur.
[3] Nodwyd gan adrannau 13 i 15 o'r Mesur fel y'i disodlwyd gan OS 2011/1651.
[4] http://wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?skip=1&lang=cy

Mesur Addysg (Cymru) 2009

Ar hyn o bryd, gall rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) apelio i TAAAC yn erbyn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch addysg eu plant. Gall rhieni hefyd wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i TAAAC.

Mae Rhan 1 o'r Mesur yn ymestyn yr hawl i wneud apêl AAA a hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn ysgol i TAAAC i blant a phobl ifanc h.y. mae'n rhoi'r un hawliau i rieni a'u plant. Mae hyn yn rhoi mynegiant ymarferol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn rhoi mesur diogelu ychwanegol i sicrhau y caiff anghenion plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag AAA eu diwallu drwy leihau'r posibilrwydd na chaiff eu hanghenion eu diwallu'n llawn os na fydd eu rhieni'n gwneud apêl neu hawliad. Nodir crynodeb o'r darpariaethau penodol yn y Mesur yn Atodiad A.

Nid yw'r hawliau newydd hyn yn cyfyngu ar sail oedran na chymhwysedd plentyn, ond gellir dwyn apêl neu hawliad ar ran 'plentyn gan "gyfaill achos"[5], er enghraifft, os na fydd y plentyn yn teimlo'n ddigon hyderus i sefydlu'r broses neu ei rhoi ar waith. Hefyd, gall y Llywydd neu banel tribiwnlys benderfynu nad oes gan blentyn sy'n dwyn achos ddigon o ddealltwriaeth i gymryd rhan heb gyfaill achos, a gellir penodi un yn yr achos hwnnw.

Gosodir nifer o ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth pan fo angen.

Mae'r hawliau a'r dyletswyddau hyn wedi'u treialu yn ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Wrecsam ers mis Mawrth 2012[6]. Bydd y cynllun treialu yn dod i ben ar ddechrau mis Ionawr 2015 a chaiff yr hawliau a'r dyletswyddau eu cymhwyso'n awtomatig i Gymru gyfan ar 5 Ionawr 2015.

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r cynlluniau treialu yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2014. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-pilot-young-peoples-rights-appeal-claim-sen-tribunal/?skip=1&lang=cy.

Roedd yr adroddiad gwerthuso yn gadarnhaol ar y cyfan ond nododd fod ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o'r hawliau a'r dyletswyddau yr oedd y Mesur yn eu gosod arnynt yn uwch yn gyffredinol na'u lefel o barodrwydd.

[5] Nodir rôl cyfeillion achos yn adran 332ZC o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 6A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Rhan C o Reoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru 2012 (O.S 2012/322) yn gwneud darpariaeth bellach am gyfeillion achos yn cynnwys pwy all fod yn gyfaill achos a'r amgylchiadau lle mae'n rhaid penodi un.

[6] Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2012 (O.S. 2012/320 (W.51) (C.10)) a Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012 (O.S. 2012/321 (W.52)) ('y rheoliadau treialu') a ddaeth i rym ar 6 Mawrth 2012. Effaith y ddeddfwriaeth hon gyda'i gilydd oedd cyflwyno'r mwyafrif o'r darpariaethau yn Rhan 1 o Fesur 2009 at ddibenion treialu yn unig.

Nod y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol i ddeall eu cyfrifoldebau newydd a chydymffurfio â hwy[7].

[7] Mae'r canllawiau hyn yn crynhoi'r dyletswyddau hynny, y nodir eu manylion llawn yn y darpariaethau statudol

Cyfrifoldebau statudol a dulliau arfer da awdurdodau lleol

Ar hyn o bryd, mae gan rieni yr hawl i wneud apêl AAA a hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i TAAAC. O 5 Ionawr 2015, bydd gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i wneud apêl AAA a hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i TAAAC ei hun. O'r dyddiad hwn, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol.

Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig

Bydd gan blant ag AAA yr hawl i apelio i TAAAC eu hunain mewn perthynas â:

(i) penderfyniad awdurdod lleol i beidio â:
   a. gwneud datganiad,
   b. cynnal adolygiad o anghenion addysgol,
   c. asesu anghenion addysgol ar gais rhiant y plentyn,
   ch. newid yr ysgol a enwir yn y datganiad;

(ii) penderfyniad yr awdurdod lleol i roi'r gorau i gynnal datganiad;

(iii) cynnwys datganiad.

Bydd plant yn gallu gwneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i TAAAC eu hunain.

Nododd Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Arbennig Cymru 2012[8] y broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad i'r TAAAC [9].

Apeliadau a hawliadau

Hysbysu a chyflwyno dogfennau

Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru hysbysu rhiant plentyn ag AAA neu gyflwyno dogfen iddo, rhaid i'r awdurdod lleol hefyd hysbysu'r plentyn neu roi'r ddogfen iddo. Bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n berthnasol i hysbysiadau a roddir i riant neu ddogfennau a gyflwynir iddo yr un mor berthnasol i hysbysiadau a roddir i blentyn neu ddogfennau a gyflwynir iddo[10].

Fel arfer da, dylai'r awdurdod lleol sicrhau, os yw'n ofynnol iddo hysbysu plentyn ag AAA neu gyflwyno dogfen iddo, fod y dull cyfathrebu a ddefnyddir yn briodol i'r plentyn hwnnw.

[8] O.S. 2012/322.
[9] http://sentw.gov.uk/?skip=1&lang=cy
[10] Adran 332ZB o Ddeddf Addysg 1996.

Enghraifft o astudiaeth achos:
Roedd dull wedi'i dargedu Wrecsam yn canolbwyntio ar geisiadau newydd am asesiadau statudol a datblygu llythyrau a thaflenni a oedd yn briodol i blant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn adlewyrchu'r gwaith papur a'r prosesau ar gyfer hysbysu oedolion am eu hawliau. Unwaith y gwneir cais am asesiad statudol, caiff y gwaith papur ei roi i rieni neu ofalwyr a hefyd i'r plentyn neu'r person ifanc. I ategu hyn, mae Wrecsam yn defnyddio ei gyfaill achos ei hun[11] (gweithiwr allweddol) i fynd drwy'r llythyr, ei esbonio i blant a phobl ifanc, a'u hatgoffa bod gwasanaethau eirioli ar gael drwy gydol y broses.

Cyngor a gwybodaeth

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru drefnu bod unrhyw blentyn yn ei ardal ag AAA, rhiant unrhyw blentyn ag AAA a chyfaill achos unrhyw blentyn ag AAA, yn cael cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â'r anghenion hynny[12].

Yn yr un modd, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru drefnu bod unrhyw blentyn anabl yn ei ardal a chyfaill achos unrhyw blentyn anabl yn cael cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion[13].

Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod y cyngor neu'r wybodaeth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Enghraifft o astudiaeth achos:
Mae gweithwyr cymorth i deuluoedd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnig cymorth i deuluoedd a phlant sydd â phryderon am anghenion dysgu ychwanegol unrhyw bryd; cysylltu â gweithwyr proffesiynol, mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth a hyrwyddo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[14] bob amser.

Cysylltodd y gweithiwr cymorth teulu plant ag anghenion dysgu ychwanegol â theuluoedd ar ddechrau'r broses asesu statudol, er mwyn egluro rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol; a hawliau'r rhieni a'r plentyn; ac er mwyn rhoi llenyddiaeth am hawliau a ffynonellau cymorth. Lle'r oedd plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal, roedd y gweithiwr cymorth i deuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol hefyd.

O ran y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â datganiadau o AAA eisoes, mae Sir Gaerfyrddin wedi canolbwyntio ar y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gysylltu a gwneud penderfyniadau, fel ffordd o gynnwys y plentyn neu'r person ifanc, a rhoi "llais" iddo yn y broses.

[11] Mae gan bob person ifanc sy'n mynd drwy'r broses asesu statudol yn Wrecsam gyfaill achos a nodir ac a neilltuir, a all helpu i egluro hawliau plentyn neu berson ifanc iddo. Mae hyn yn wahanol i gyfaill achos a ddiffinnir o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009.
[12] Adran 332AA o Ddeddf Addysg 1996.
[13] Paragraff 6B o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
[14] Mae canolbwyntio ar yr unigolyn yn ymwneud ag arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n canolbwyntio ar anghenion y dysgwr ac ymrwymiad i wrando'n barhaus a gweithredu ar unwaith.

Enghraifft o astudiaeth achos:
Bu Wrecsam yn gweithio gyda staff ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r broses er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o hawliau plant i apelio a gwneud hawliad ac y gallent egluro'r hawliau hyn i blant pe bai angen.

O ran y plant hynny sydd â datganiad eisoes, aeth Wrecsam ati i fabwysiadu strategaeth lle codwyd hawliau plant a phobl ifanc i apelio mewn adolygiad blynyddol a chyfarfodydd cynllunio'r broses bontio gan Gydlynwyr AAA neu athrawon sy'n cydlynu'r adolygiadau hyn. Mae'r gweithiwr allweddol a bennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc â datganiad wrth law i egluro'r hawliau hefyd.

Dylai awdurdodau lleol ystyried, fel mater o arfer da, eu dulliau o godi ymwybyddiaeth o hawliau plentyn a rhoi hyfforddiant yn y maes hwn, er enghraifft, ymysg gweithwyr proffesiynol.

Datrys anghydfodau

Rhaid i bob awdurdod lleol wneud trefniadau gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng:

- yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a phlant ag AAA yn ei ardal
- yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a rhieni plant ag AAA yn ei ardal
- cyrff cyfrifol a phlant anabl yn ei ardal[15]

Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd wneud trefniadau gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys, ym mhob ysgol, anghydfodau rhwng plentyn ag AAA neu riant y plentyn hwnnw a pherchennog yr ysgol ynghylch y ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir ar gyfer y plentyn hwnnw.

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gymryd camau, fel yr ystyrir yn briodol, i wneud trefniadau[16] mewn perthynas ag osgoi neu ddatrys anghydfodau sy'n hysbys i'r plant hynny a rheini plant yn eu hardal, penaethiaid a pherchnogion ysgolion yn eu hardal ac unrhyw unigolion eraill a ystyrir yn briodol.

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sicrhau na fydd unrhyw drefniadau a wneir gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghydfodau yn effeithio ar hawl plentyn i apelio neu wneud hawliad i TAAAC.

[15] Adran 332BA o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 6C o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
[16] Ni all y trefniadau hyn effeithio ar hawl plentyn neu riant plentyn i apelio i TAAAC neu i wneud hawliad i TAAAC. Rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau sy'n briodol yn eu barn hwy er mwyn sicrhau bod plant, rhieni a chyfeillion achos yn ymwybodol o hyn.

Fel arfer da, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol adolygu eu proses o ddatrys anghydfodau, gofynion a chwynion er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'u cyfrifoldebau statudol.

Enghreifftiau o astudiaethau achos:
Comisiynodd Sir Gaerfyrddin SNAP Cymru, sy'n darparu Gwasanaeth Datrys Anghydfodau'r Awdurdod i rieni a gofalwyr, i ymestyn ei wasanaeth i blant a phobl ifanc. Mae gweithwyr cymorth i deuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ymgymryd â rôl allweddol wrth ddatrys anghydfodau.

Cafodd y gwasanaeth datrys anghydfodau presennol i rieni a gofalwyr, Gwasanaeth Datrys Anghydfodau AAA Gogledd Cymru, a ddarperir gan SNAP (Cymru), ei ymestyn i gwmpasu plant a phobl ifanc.

Gwasanaethau eirioli annibynnol

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn ei ardal ac, wrth wneud hynny, gyfeirio unrhyw blentyn ag AAA neu anabledd neu gyfaill achos y plentyn hwnnw yn ei ardal, sy'n gwneud cais am wasanaethau eirioli annibynnol, at ddarparwr gwasanaeth perthnasol[17]. Fodd bynnag, argymhellir fel arfer da y dylid cynnig y gwasanaethau hynny i blant ag AAA neu anabledd fel mater o drefn er mwyn helpu i'w galluogi i benderfynu pa un a ydynt am fwrw ymlaen ag apêl neu hawl.

Wrth wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol, dylai awdurdodau lleol ystyried yr egwyddor bod yn rhaid i'r gwasanaeth hwn fod yn annibynnol ar unrhyw unigolyn sy'n destun apêl neu hawliad, yn gysylltiedig ag ymchwilio i apêl neu hawliad neu ddyfarnu arno, a sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi cyngor a chymorth (drwy gynrychioliadau) i unrhyw blentyn sy'n:

gwneud neu'n bwriadu gwneud apêl neu hawliad i TAAAC
ystyried a ddylai wneud apêl neu hawliad i TAAAC
cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfod

Dylai awdurdodau lleol gymryd camau, fel yr ystyrir sy'n briodol, i wneud trefniadau mewn perthynas â sicrhau bod y plant hynny a rhieni'r plant hynny yn eu hardal, penaethiaid a pherchnogion ysgolion yn eu hardal ac unrhyw unigolion eraill a ystyrir yn briodol, yn ymwybodol o wasanaethau eirioli annibynnol.

[17] Adran 332BB o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 6D o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010..

Enghreifftiau o astudiaethau achos:
Defnyddiodd Sir Gaerfyrddin nifer o wasanaethau eirioli plant a oedd yn bodoli eisoes. Yn eu plith roedd Gweithredu dros Blant (sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal) a SNAP Cymru (sy'n cefnogi teuluoedd â phlentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd o'r fath). Ategwyd y gwasanaethau eirioli hyn gan y gwasanaeth ieuenctid.

Comisiynodd Wrecsam Second Voice i roi cymorth eirioli i blant a phobl ifanc sy'n arfer eu hawliau i asesiad statudol a datganiadau. Mae hyn yn ategu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd ar waith rhwng Wrecsam a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ddarparu Gwasanaeth Partneriaethau Rheini, yn ychwanegol at y cyfaill achos sy'n rhoi cymorth i'r rheini â datganiad AAA.

Gweithredu'r darpariaethau

Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, dylai pob awdurdod lleol ystyried y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd yn yr ardaloedd awdurdodau lle y cynhaliwyd y cynlluniau treialu, sef Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Cafodd y dulliau hyn eu gwerthuso a chanfuwyd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i weithredu'r darpariaethau a wneir o dan y Mesur, gellir dod o hyd i'r deunyddiau a ddatblygwyd gan yr awdurdodau treialu a chan TAAAC ar gyfer hysbysu plant o'u hawliau o dan y Mesur yn Atodiad B.

Atodiad A: Darpariaethau Mesur Addysg (Cymru) – crynodeb

Cyflwynodd y Mesur y darpariaethau canlynol:

Apeliadau anghenion addysgol arbennig

Hawl plentyn i apelio mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn rhoi'r hawl i blant apelio i TAAAC eu hunain mewn perthynas â phenderfyniad i beidio â gwneud datganiad; cynnwys datganiad; adolygiadau o anghenion addysgol; asesiad o anghenion addysgol; newid ysgol a enwir a rhoi'r gorau i gynnal datganiad.

Hysbysu a chyflwyno dogfennau. Rhaid i unrhyw hysbysiad neu ddogfen y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu rhoi mewn perthynas ag AAA plentyn gael eu rhoi i'r plentyn dan sylw hefyd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddogfennaeth sy'n ymwneud ag apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â gwneud datganiad; adolygiadau o anghenion addysgol; asesiad o anghenion addysgol; newid ysgol a enwir a rhoi'r gorau i gynnal datganiad.

Cyfeillion achos. Mae hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu drwy reoliadau ar gyfer cyfeillion achos a all wneud cynrychioliadau ar ran plentyn gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghydfodau. Gall cyfeillion achos hefyd arfer hawliau'r plentyn i apelio i'r TAAAC ar ran y plentyn.

Cyngor a gwybodaeth. Rhaid i unrhyw blentyn ag anghenion addysgol arbennig, rhiant a chyfaill achos gael cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â'r anghenion hynny.

Datrys anghydfodau. Rhaid bod trefniadau ar waith i osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng y plentyn neu riant plentyn a'r ysgol neu'r awdurdod perthnasol.

Gwasanaethau eirioli annibynnol. Rhaid gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol a dylai unrhyw blentyn neu gyfaill achos gael ei gyfeirio at y darparwr gwasanaeth hwnnw os gwneir cais am y cyfryw wasanaethau.

Gweithdrefn y Tribiwnlys. Diwygiwyd y darpariaethau ynghylch y weithdrefn ar gyfer gweithrediadau apelio TAAAC ar faterion sy'n ymwneud ag AAA.

Hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd

Hawl plentyn i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae hyn yn golygu y gall hawliad bod corff cyfrifol ysgol wedi gwahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd anabledd mewn ffordd anghyfreithlon gael ei wneud i TAAAC gan yr unigolyn hwnnw.

Cyfeillion achos. Mae hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu drwy reoliadau sy'n caniatáu i unigolyn wneud cynrychioliadau ar ran plentyn anabl gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghydfodau am faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail

anabledd mewn ysgol. Gall cyfeillion achos hefyd arfer hawliau'r plentyn i hawlio i'r TAAAC ar ran y plentyn.

Cyngor a gwybodaeth. Rhaid i unrhyw blentyn anabl a chyfaill achos gael cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Datrys anghydfodau. Rhaid bod trefniadau ar waith i osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng cyrff â chyfrifoldeb a phlant anabl ynghylch achosion o wahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail anabledd.

Gwasanaethau eirioli annibynnol. Rhaid gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol a dylai unrhyw blentyn anabl neu gyfaill achos gael ei gyfeirio at y darparwr gwasanaeth hwnnw os gwneir cais am y cyfryw wasanaethau.

Gweithdrefn y Tribiwnlys. Diwygiwyd y darpariaethau ynghylch y weithdrefn ar gyfer gweithrediadau TAAAC ar hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd, er mwyn iddynt gwmpasu hawliadau uniongyrchol gan blant.

Rôl Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd yn dilyn cwyn neu, fel arall, os gweithredir neu y bwriedir gweithredu'n afresymol. Os yw TAAAC wedi gwneud gorchymyn, gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol gydymffurfio.

Treialu

Treialu hawliau plentyn i apelio neu i wneud hawliad. Gall Gweinidogion Cymru ddarparu drwy reoliadau ar gyfer treialu'r darpariaethau hyn am gyfnod o hyd at 40 mis.

Atodiad B: Deunyddiau treialu a chysylltiadau

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Gwybodaeth i bobl ifanc, cyfeillion achos a rhieni/gofalwyr:
http://sentw.gov.uk/youngpeople/?skip=1&lang=cy

Tribiwnlys Aled – fideo a wnaed i helpu plant a phobl ifanc drwy broses y gwrandawiad ac i ddangos beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad tribiwnlys:
http://sentw.gov.uk/youngpeople/aledstribunal/?skip=1&lang=cy

Cyswllt:
SENTW@wales.gsi.gov.uk

Sir Gaerfyrddin

Proses AAA
http://www.amdro.org.uk/Cymraeg/Dysgu/Inclusion/AddLearningNeeds/SENProcess/Pages/default.aspx

Adnoddau hawliau plant
http://www.amdro.org.uk/Cymraeg/Dysgu/Inclusion/ChildsAppeal/Resources/Pages/default.aspx

Cyswllt:
ALNSupport@carmarthenshire.gov.uk

Wrecsam

Cyswllt:
sen@wrexham.gov.uk